

Dabrafenib sy'n cynnwys trametinib fel rhan o driniaeth gynorthwyol i drin melanoma â mwtadiad positif BRAF V600 a echdorwyd

17 Hydref 2018

Mae Dabrafenib (Tafinlar) sy'n cynnwys trametinib (Mekinist) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer melanoma â mwtadiad BRAF V600 mewn oedolion:

- os yw'r tiwmor wedi cael ei dynnu drwy lawdriniaeth (a elwir yn echdorri) ac
- os yw wedi ymledu i nodau lymff cyfagos (a elwir yn gam 3).

Gall triniaeth gynorthwyol helpu i atal y canser rhag dychwelyd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Melanoma UK](#), 0808 171 2455
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3150-7